cbac wjec

TGAU

# 3010N20-1

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

# UNED 2: Y NOFEL

# HAEN SYLFAENOL

# DYDD LLUN, 21 MAI 2018 – BORE

# 1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

© WJEC CBAC Ltd.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

Defnyddiwch yr indecs ar dudalen 4 i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

COFIWCH DDYFYNNU'N BRIODOL
A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU
PENODOL I GEFNOGI'CH SYLWADAU.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**NOFELAU** **TUDALEN**

**LLINYN TRÔNS (Bethan Gwanas)** **8**

**BACHGEN YN Y MÔR**
**(Morris Gleitzman**
**Addasiad Elin Meek)** **15**

**DIFFODD Y SÊR (Haf Llewelyn)** **22**

**AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR**
**(Alun Jones)** **29**

**I BLE'R AETH HAUL Y BORE?**
**(Eirug Wyn)** **35**

**DIM (Dafydd Chilton)** **41**

**LLINYN TRÔNS – Bethan Gwanas**

**1. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**(a) Darllenwch y darn a gymerwyd o LLINYN TRÔNS ar dudalennau 8-11. Beth sy'n digwydd yn union wedi'r olygfa hon?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**(b) Sut llwyddodd Llion i ddangos ei fod yn well na Nobi a Gags yn y gwersyll?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**1(c)** **Ysgrifennwch hanes y criw yn y disgo ar y noson olaf yn y gwersyll. ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**

**[10]**

**(ch)** **Sut gymeriad yw Gwenan? Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]**

**(d)** **Darllenwch y darn a gymerwyd o LLINYN TRÔNS ar dudalennau 8-11.**

**(i)** **Edrychwch ar arddull llinellau 53-56 yn y darn.**

**Roedd hynny'n amlwg yn gwestiwn gwirion, gan fod y greadures yn goch ac yn tuchan fel dafad.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]**

**1(d)(ii)** **Edrychwch ar arddull llinell 60 yn y darn.**

**"Be? I bob man?"**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]**

**(iii)** **Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]**

**(dd)** **Dychmygwch mai chi yw Llion. Ysgrifennwch LYTHYR LLION at ffrind ar ddiwedd y nofel hon. Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i deimladau. Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**

**[10]**

**[40]**

Wedyn cawson ni gotiau a throwsusau glaw lliw oren hollol embarasing (y lliw gorfodol i bob ploncar ar ben mynydd), a rycsacs bychain i gario'r gêr i gyd: jympar wlân sbâr rhag ofn i ni fferru, 'bifi bag' sef bag plastig anferthol (oren eto) rhag ofn i ni orfod cysgu dros nos ar ben y blydi mynydd, pecyn o frechdanau ac afal, a fflasg o de neu goffi (roedd hi'n anodd deud pa un).

Gwingodd Gwenan wrth geisio llwytho'i rycsac ar ei chefn ac edrych ar Gags efo llygaid llo bach a fflachio gwên fach 'DAMSEL IN DISTRESS' i'w gyfeiriad. (Wnes i feddwl rhoi cynnig ar gyfieithu hwnna – dylanwad Dei – ond tydi 'tits mewn twll' ddim yn PC nac ydi? 'Merch mewn smonach?' 'Geneth mewn gofid?' Ta waeth ...) Roedd hi'n amlwg yn disgwyl iddo fo gario ei llwyth hi yn osgytal â'i un o, ond tydi Gags ddim yn ffŵl. Gwenodd yn ôl arni.

" 'Neith les i ti, del!"

Cyn i Gwenan gael cyfle i wneud ceg Donald Duck, daeth Donna allan o’r cwt efo rycsac ddwywaith maint ein rhai ni ar ei chefn. Sbiodd pawb arni gydag edmygedd i ddechrau, nes i Nobi chwyrnu:

“Betia i fod ’na uffar o’m byd ynddo fo, jest trio edrych yn HARD mae hi.”

Bosib ei fod o’n iawn, ond roedd ’na olwg reit galed ar gluniau Donna, a’i breichiau hi hefyd. ’Tasai hi’n dod i sgrap rhwng Nobi a hithau, arni hi byddwn i’n rhoi ’mhres.

“Iawn,” meddai Donna. “Pawb yn barod? Ffwrdd â ni ’ta.”

A dechreuodd gerdded i gyfeiriad camfa yng ngwaelod y cae, a Nobi a Gags yn dynn wrth ei phen-ôl hi. Roedd hwnnw’n edrych reit galed i mi hefyd.

Roedd y grwpiau i gyd yn mynd i fyny’r un mynydd, ond ar hyd ffyrdd gwahanol. Roedd pawb arall, gan gynnwys Tecs Pecs, wedi cael trip mewn bws mini

i’r ochr arall, ond roeddan ni’n gorfod cerdded pob blincin cam o’r ganolfan.

Ar ôl rhyw hanner awr o gerdded ar hyd llwybr digon diflas, roedd Gwenan wedi nogio. Trodd Donna i weld ei bod hi hanner canllath da y tu ôl i ni.

“Ti’n iawn, Gwenan?” Roedd hynny’n amlwg yn gwestiwn gwirion, gan fod y greadures yn goch ac yn tuchan fel dafad. “Ti’m wedi arfer cerdded naddo?” Deg allan o ddeg Donna.

Edrychodd Gwenan arni yn flin. “Naddo. Mae Mam wastad yn rhoi lifft i mi.”

“Be? I bob man?”

“Bob man. Ac mi fysai hi’n flin ’tasai hi’n gwbod eich bod chi’n gneud i ni gerdded yn y glaw.” Roedd hi’n pigo ‘chydig, ond fawr ddim. “Gawn ni rest rŵan plis?”

Chwerthin wnaeth Gags. “Yn barod? Callia Gwenan!”

“Smocio gormod rwyt ti,” ychwanegodd Nobi.

“Gwenan?” holodd Donna. “Ti ’rioed yn smocio?”

“Ydw tad! Cadw fi’n slim tydi?”

**BACHGEN YN Y MÔR – Morris Gleitzman (Addasiad Elin Meek)**

**2.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**(a)** **Darllenwch y darn a gymerwyd o BACHGEN Y MÔR ar dudalennau 15-17.**
**Beth sy'n digwydd yn union wedi'r olygfa hon?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**(b)** **Beth wnaeth Bibi i beryglu ei bywyd hi a Jamal cyn gadael eu cartref?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**3(c) Ysgrifennwch hanes Jamal a Bibi yn y stadiwm pêl-droed.**
**ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**

**[10]**

**(ch) Sut gymeriad yw Bibi?**
**Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]**

**(d) Darllenwch y darn a gymerwyd o BACHGEN Y MÔR ar dudalennau 15-17.**

**(i) Edrychwch ar arddull llinell 18 yn y darn.**

**Dw i'n wyllt gacwn.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]**

2(d)(ii) Edrychwch ar arddull llinellau 39-41 yn y darn.

**Mae'n cydio yn y bêl. Dw innau'n dal fy ngafael. Rydyn ni'n dau'n tynnu.**

Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

(dd) Dychmygwch mai chi yw tad y plant. Ysgrifennwch LYTHYR Y TAD at ffrind ar ddiwedd y nofel hon. Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i deimladau. Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.

[10]

[40]

Aros eiliad, mae rhywun arall yn ymuno â ni nawr.

Mae’n fy nhaclo i.

Yn galed iawn.

O na, dw i ddim yn credu’r peth, y bachgen geisiodd ddwyn fy mhêl yn y gwersyll sydd yno.

Dw i’n ei daclo’n galed, yn mynd â’r bêl oddi wrtho ac yn ei chodi i’m dwylo.

‘Hei,’ medd. ‘Fy mhêl i yw honna.’

‘Nage ddim,’ meddaf, gan gydio’n dynn yn y bêl.

‘Dy deulu di yw hon?’ medd y bachgen, gan bwyntio at Bibi.

‘Ie,’ medd hi, a’i llygaid yn fflachio.

‘Fy mhêl i yw hi, ’te,’ medd y bachgen. ‘Fe gytunon ni ar y tâl.’

Dw i’n wyllt gacwn. ‘Ond wnest ti ddim mynd â fi at fy nheulu,’ gwaeddaf arno. ‘Fe redaist ti ar ôl y Cenhedloedd Unedig.’

Mae Bibi’n tynnu’i phenwisg ac yn camu tuag at y bachgen. Er fy mod i’n wyllt

gacwn, dw i’n ei gwylio hi’n bryderus. Pan fydd Bibi’n tynnu’i phenwisg mae hi fel arfer yn paratoi i daflu’i dyrnau.

‘Gwranda’r cynffon asyn,’ bloeddia Bibi ar y bachgen. ‘Jamal bia’r bêl ’na. Mae hi wedi bod gyda fe ers dwy flynedd. Wyt ti’n gweld y darn ’na? Fe fues i’n ei helpu fe i’w ludo ar y bêl. Fe dorron ni’r plastig o sedd gefn tacsi Dad.’

Dw i’n gobeithio nad yw Dad yn gallu clywed.

Mae’r bachgen yn syllu ar Bibi fel petai erioed wedi gweld merch fel hi o’r blaen. Mae’n debyg nad yw e.

Wedyn mae’n symud ymlaen yn sydyn. Nid at Bibi, ond ataf i. Mae’n cydio yn y bêl. Dw innau’n dal fy ngafael. Rydyn ni’n dau’n tynnu. Dyw e ddim yn gryfach na fi, ond dyw e ddim yn wannach chwaith. Mae’n methu cael y bêl oddi wrthyf, ond dw innau’n methu cael y bêl oddi wrtho yntau.

Mae’r bachgen yn edrych dros ei

ysgwydd ar Bibi.

‘Fe gei di’r bêl,’ medd wrthi, ‘os byddi di’n gariad i fi.’

Mae’r olwg ar wyneb Bibi’n gas. Byddai’n gallu llosgi paent oddi ar danc. Mae’n codi gwaelod ei sgert, yn rhedeg at y bachgen ac yn cicio’i goes.

‘Aw,’ sgrechia, a mynd am yn ôl, gan lusgo’r bêl a minnau tuag ato. Dw i’n cwympo ar ei ben. Mae’r bêl yn bownsio ar ein pwys ni. Mae’r bachgen yn ceisio’i dal.

‘Na, chei di ddim,’ gwaedda Bibi a rhoi anferth o gic i’r bêl.

Mae hi’n codi fry dros bennau’r bobl i gyd, a dros y ffens ar y cei.

Mae pawb yn tynnu eu hanadl.

Mae’r bêl yn bownsio oddi ar ymyl un o’r cychod ac yn diflannu rhwng y cwch a’r cei.

# DIFFODD Y SÊR – Haf Llewelyn

**3. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**(a) Darllenwch y darn a gymerwyd o DIFFODD Y SÊR ar dudalennau 22-25.**
**Beth sy'n digwydd yn union wedi'r olygfa hon?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**(b) Beth mae Anni'n ei wneud yn y nofel sy'n gwneud i ni feddwl ei bod yn ofergoelus?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**3(c)** **Ysgrifennwch hanes mam Hywel yn ymweld â Thrawsfynydd.**
**ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10]**

**(ch)** **Sut gymeriad yw Ellis?**
**Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]**

**(d)** **Darllenwch y darn a gymerwyd o DIFFODD Y SÊR ar dudalennau 22-25.**

**(i)** **Edrychwch ar arddull llinellau 41-42 yn y darn.**
**Oedd tad Lora wedi colli ei gof, wedi gwallgofi?**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]**

**3(d)**

(ii) Edrychwch ar arddull llinellau 81-83 yn y darn.

**Llamodd hithau i drio ei ddal ond roedd o'n rhy gyflym iddi hi, a rhuthrodd heibio i finna ac am y siambr.**

Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

**3(dd) Dychmygwch mai chi yw Anni.**
**Ysgrifennwch LYTHYR ANNI at ffrind ar ddiwedd y nofel.**
**Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i theimladau.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**

**[10]**
**[40]**

**Roedd Lora yn dal i eistedd gan syllu i nunlle.**

**“Lle mae Jim bach a’r lleill?” mentrais ofyn yn dawel. Wnaeth Lora ddim fy nghlywed, mae’n rhaid, oherwydd wnaeth hi ddim symud gewyn, dim ond dal i syllu ar y fflamau bach glas yn llyfu ochrau’r grât. Ydi fflamau glas yn golygu bod eira ar ei ffordd? Os daw hi’n eira mawr efallai na fydd y trên yn medru dod trwy Gwm Prysor, ac efallai na fyddai’n rhaid i Ellis fynd i Lerpwl wedi’r cwbwl. Dechreuais weddïo dan fy ngwynt... O Dduw, gwna iddi fwrw eira bob dydd nes bydd y rhyfel wedi dod i ben. Gwna iddi luwchio, nes na welwn ni allan trwy’r ffenestri hyd yn oed ... Diolch i ti o Dad Nefol am, am, am .... ym, gael gwared o’r peswch, Amen. Dwi ddim yn siŵr mai Duw gafodd wared ar fy mheswch i chwaith. Dwi’n meddwl**

mai'r mêl gawson ni gan Idris Huw wnaeth hynny, ond rhaid i mi ddiolch am rywbeth os rydw i'n gofyn am rywbeth arall. Mae siarad efo Duw ychydig 'run fath â siarad efo chwaer fach. GEI DI'R FARBLEN YNA GEN I OS EI DI I NÔL DŴR YN FY LLE I. Ffeirio – dyna sut mae siarad efo Duw yn gweithio.

Edrychais yn ofalus ar yr ystafell rhag ofn i mi ddod o hyd i gliw i fy helpu, ond roedd popeth yr un peth ag arfer. Yna, cododd Lora ei phen ac amneidio at y drws tywyll yng nghysgod y simdde, lle roedd y siambr fach.

"Tada," sibrydodd. "Mae Tada adra."

"O?" Llyncais fy mhoer. Mae'n rhaid felly fod ofnau Lora wedi'u gwireddu. Oedd tad Lora wedi colli ei gof, wedi gwallgofi? Oedd o'n mynd i fod yn un o'r dynion dychrynllyd a oedd yn gweiddi a sgrechian yn y stryd, gefn trymedd nos? Fyddai tad Lora fel y dyn yna yn y Blaena?

“Ers pryd mae o adra?”

“Bora ’ma. Mi ddaeth ar y trên ben bora i’r stesion, ac mi roedd o yma cyn i ’run ohonon ni godi, cyn i neb arall fedru ei weld o ... ”

“Wyt ti wedi’i weld o?” gofynnais yn ddistaw bach.

“Do.”

“Ydi o, ydi o ... ?” Ein Tad, yr Hwn wyt yn y Nefoedd ...

Roeddwn i wedi dechrau gweddïo eto. O, Dduw Mawr, paid â gadael i dad Lora fod yn dwlali. O, Arglwydd, bydd drugarog ... a dwi’n addo dysgu f’adnoda a’r Rhodd Mam i gyd pob gair, a nôl dŵr heb i neb ofyn i mi, ac mi ro’ i pob rhuban sydd gen i, a’r broets gwydr i Enid, dim ond i dad Lora Margaret gael peidio â bod yn dwlali.

Mae’n rhaid ’mod i wedi cau fy llygaid yn dynn i siarad efo Duw, achos pan

agorais nhw wedyn roedd Lora yn sefyll wrth y drws allan a golwg wyllt arni. “Ewch â fo am dro bach eto ... ” Roedd y plant eraill wedi dod yn eu holau o dŷ eu nain a Jim bach efo nhw. Ceisiodd Lora afael ym mraich Jim, ond sgrialodd hwnnw i mewn heibio i’w chwaer. Llamodd hithau i drio ei ddal ond roedd o’n rhy gyflym iddi hi, a rhuthrodd heibio i finna ac am y siambr.

# AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – Alun Jones

4. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

(a) Darllenwch y darn a gymerwyd o AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR ar dudalennau 29-31.
Beth sy'n digwydd yn union wedi'r olygfa hon?
Nodwch DAIR ffaith. [3]

(b) Pam roedd Harri Evans am ddial ar Richard Jones?
Nodwch DRI rheswm. [3]

**4(c)** **Ysgrifennwch hanes Gareth Hughes yn ymosod ar Huw Gwastad Hir. ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**

**[10]**

**(ch)** **Sut gymeriad yw Meredydd? Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]**

**(d)** **Darllenwch y darn a gymerwyd o AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR ar dudalennau 29-31.**

**(i)** **Edrychwch ar arddull llinell 11 yn y darn.**
**Gwylltiodd yn sydyn.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]**

4(d)

(ii) Edrychwch ar arddull llinellau 19-20 yn y darn.

**Trodd y deial yn ffyrnig.**

Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

(dd) Dychmygwch mai chi yw Now.
Ysgrifennwch LYTHYR NOW at ffrind ar ddiwedd y nofel hon.
Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i deimladau.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.

[10]

[40]

Safai Meredydd ar ganol llawr y gegin, ei wyneb yn welw, a'i ddyrnau wedi'u cau'n dynn. Petai wedi ystyried hyn o'r blaen, ni fyddai wedi bod yn gymaint o sioc iddo. Dywedasai'i dwrnai wrtho beth amser yn ôl bod yr heddlu wedi cael gwarant i chwilio'r tŷ ond ni roes lawer o sylw i hynny ar y pryd. Fe chwiliwyd y tŷ, bob modfedd ohono. Yr oeddynt hyd yn oed wedi codi'r carpedi.

Gwylltiodd yn sydyn. Trodd, a cherddodd yn ei hyll tua'r cyntedd, ond cyn iddo gyrraedd y drws baglodd ar draws plyg yng ngharped y gegin a thrawodd ei ben ar ochr y drws wrth ddisgyn yn glep i lawr.

"Damia, damia, damia."

Dyrnodd y llawr yn ei gynddaredd cyn codi a rhuthro at y ffôn. Trodd y deial yn ffyrnig. Daeth ateb ar unwaith.

"Bore da. Gwyndaf Pritchard a'i Bartneriaid."

"Ydi Mr. Pritchard i mewn?"

“Pwy sy’n galw, os gwelwch yn dda?”

“Meredydd Parri, Hirfaen.”

“O, bore da, Mr. Parri. Hanner munud.”

Deg eiliad oedd yr hanner munud, amser hir iawn.

“Ia, Meredydd?”

“Mae ... mae ... mae ... ”

“Be sy’n bod? Wyt ti’n iawn?”

“Mae’r lle ’ma â’i din am ’i ben.”

Bu saib byr.

“O.” Yr oedd llais y twrnai’n dawel. “Mi ddylwn fod wedi dy rybuddio. Mi anghofiais rhwng popeth.”

“Maen nhw wedi codi’r carpedi a phob dim.”

“Yli, oes ’na rywbeth ar goll?”

“Duw, Duw, wn i ddim.”

“Weli di rywbeth wedi ei dorri?”

“Be wn i?” Ystyriodd am funud. “Na, go brin. I be oedd isio codi’r carpedi a symud y gwelyau?”

“Llyfra budron.”

“Be?”

"Tasa nhw wedi dod o hyd i lyfra neu lunia budron yn y tŷ, meddylia'r sbort y basa nhw wedi'i gael am dy ben di yn y Llys. Ydi matres dy wely di wedi'i hagor?"

"Iesu bach."

"Cofia nad oeddat ti ddim i fod i ddod yn ôl, er na fyddai hynny ddim wedi gwneud rhithyn o wahaniaeth mewn gwirionedd. Yr un fyddai'r llanast tasa ti gartref ar y pryd. Nid er mwyn cael golwg bach ffwr â hi o gwmpas y lle yr aethon nhw i'r drafferth o gael gwarant i chwilio'r tŷ. Mi elli fentro bod pob dalen o bob llyfr sydd acw wedi'i throi. Wedi rowlio'r carpedi maen nhw?"

"Na, dim ond eu lluchio'n ôl i'w lleoedd rywsut rywsut."

"Oes arnat ti eisiau help i roi dy bethau mewn trefn? Mi ddaw Margaret draw ar unwaith."

"Na, mi fydda i'n iawn."

# I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – Eirug Wyn

5. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

(a) Darllenwch y darn a gymerwyd o I BLE'R AETH HAUL Y BORE? ar dudalennau 35-37.
Beth sy'n digwydd yn union cyn yr olygfa hon?
Nodwch DAIR ffaith. [3]

(b) Sut llwyddodd y Cotiau Glas i gael y Navaho i symud o'u tiroedd?
Nodwch DAIR ffaith. [3]

**5(c) Ysgrifennwch hanes Dicks a'i filwyr yn ymosod ar Chico.**
**ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**

**[10]**

**(ch) Sut gymeriad yw Haul y Bore? Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]**

**(d) Darllenwch y darn a gymerwyd o I BLE'R AETH HAUL Y BORE? ar dudalennau 35-37.**

**(i) Edrychwch ar arddull llinellau 13-15 yn y darn.**

**Aeth yn nos ddu arno. Roedd Haul y Bore wedi'i daro'n galed ar ei ben.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]**

**5(d)**

**(ii)** **Edrychwch ar arddull llinell 34 yn y darn.**

**“Y bitsh! Lle mae hi?”**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]**

**(iii)** **Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae’r nodwedd yn effeithiol. [4]**

**(dd)** **Dychmygwch mai chi yw Carson. Ysgrifennwch LYTHYR CARSON at ffrind ar ddiwedd y nofel hon. Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a’i deimladau. Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**

**[10]**

**[40]**

Gorweddai hi yno'n llonydd. Roedd hi newydd afael mewn carreg. Doedd hi ddim yn garreg fawr, ond roedd hi'n galed.

Cododd Dicks ac aeth yn ôl at ei ddillad. Gwaeddodd ar ei ddynion, “Os oes yna rywun isho gwagiad, mae yna uffar o beth boeth yn fan'ma!”

Eisteddodd ar lawr i dynnu'i esgidiau am ei draed.

Cododd ei ben pan glywodd leisiau'i ddynion yn ei rybuddio, ond roedd hi'n rhy hwyr. Aeth yn nos ddu arno. Roedd Haul y Bore wedi'i daro'n galed ar ei ben.

Safodd hithau yno am ennyd yn edrych y tu hwnt i'r clwyf oedd ar ben y Capten. Yno roedd corff bychan yn gorwedd. Disgynnodd ar ei gliniau. Yn ei dicter plannodd ei cheg yng ngwddf y Capten a brathodd â'i holl nerth. Clywodd y cnawd yn rhwygo rhwng ei dannedd a theimlodd y gwaed yn llifo'n gynnes i'w

cheg.

Ofnai'r milwyr danio ergydion ati rhag iddynt daro'r Capten; ond yna, gyda sgrech herfeiddiol, troes Haul y Bore a rhedeg i'r coed.

Rhedodd rhai o'r milwyr ar eu hunion i ymgeleddu Dicks, ac aeth eraill ar ôl y ferch.

Ymhen rhai munudau daeth Dicks ato'i hun.

"Y bitsh! Lle mae hi?"

"Rhywle yn y coed, syr. Fe sgrechiodd 'Chiquito' cyn rhedeg i'r coed."

"Rhaid i ni'i ffeindio hi! Ugain doler i bwy bynnag a ddaw â'i chorff hi'n ôl yma mewn hanner awr!"

Rhuthrodd y milwyr fel un gŵr i'r coed. Wedi'r cyfan, roedd ugain doler yn gyflog mis.

Ceisiodd Dicks godi, ond ni allai. Roedd yr ergyd wedi'i daro'n galetach nag yr oedd wedi tybio. Roedd gwaed hefyd yn ffrydio o'r clwyf yn ei wddf. Bu ar ei

eistedd am rai munudau cyn ceisio codi drachefn. Y tro hwn, trwy bwyso'n drwm ar ei reiffl, herciodd at ei geffyl. O fag ei gyfrwy estynnodd rwymyn a photel o wisgi. Cymerodd ddracht o'r botel cyn socian y cadach a'i wthio i'r clwyf. Brathodd ei wefus, a throdd yn gyflym i edrych tua'r coed.

"Bitsh!" meddai drachefn.

Petai wedi edrych yr un mor gyflym i gyfeiriad yr afon, mae'n bosib y byddai wedi gweld wyneb rhychiog, gwelw a dau lygad llonydd, stond yn syllu'n oeraidd arno drwy'r hesg. Yn ystod ei phedwar ugain ac un o flynyddoedd ar y ddaear roedd Quanah wedi gweld pethau erchyll, a hoffai adrodd straeon am yr erchyllterau hynny yn hwyr y nos yng ngolau'r tân i ddychryn rhai o'r plant ienga. Rŵan, roedd ganddi stori newydd. Stori y byddai'n rhaid iddi ei hadrodd yn dawel. Ei hadrodd i ddechrau wrth Geronimo a Chico...

**DIM – Dafydd Chilton**

**6. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**(a) Darllenwch y darn a gymerwyd o DIM ar dudalennau 41-43.**
**Beth sy'n digwydd yn union wedi'r olygfa hon?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**(b) Pam mae'r llythyr yn y banc mor bwysig i ddeall beth ddigwyddodd i Owain?**
**Nodwch DRI rheswm. [3]**

**6(c)** **Ysgrifennwch hanes Owain yn ymosod ar y car yng Ngogledd Iwerddon.**
**ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10]**

**(ch)** **Sut gymeriad yw Gwyn?**
**Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]**

**(d)** **Darllenwch y darn a gymerwyd o DIM ar dudalennau 41-43.**

**(i)** **Edrychwch ar arddull llinellau 54-56 yn y darn.**
**Crwydrodd ei lygaid o gwmpas y dorf, i chwilio am y rhai a allai fod ag angen clywed min ei dafod.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]**

6(d)

(ii) Edrychwch ar arddull llinell 61 yn y darn.

**Daeth bloedd. Oddi wrth Gwyn.**

Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

(dd) Dychmygwch mai chi yw Gwyn. Ysgrifennwch LYTHYR GWYN at ffrind ar ddiwedd y nofel hon. Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i deimladau. Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.

[10]

[40]

Cronnai'r dorf o fechgyn yn anesmwyth o flaen y GYM a than yr ywen a dyfai wrth ei ddrws. Gwasgai'n llinell dynn i gerdded rhwng y ddwy res o PREFECTS y Chweched. Ac i osgoi, orau y gallai, y bugeilio rheglyd a'r dyrnau parod.

Y tu mewn, safai pawb ar y naill ochr neu'r llall yn ddau grŵp disgwylgar ac aflonydd, tra edrychai'r Chweched i lawr arnyn nhw o'r galeri, yn rymus ddididdordeb. Pan ddaeth y neges fod yr athrawon ar eu ffordd daeth bloedd oddi wrth Bowyer-Jones, yr HEAD BOY, ar i'r rhai islaw gau eu cegau, ac ymsythodd pawb.

Daeth yr athrawon i mewn. A cherdded, yn unigolion ac yn ddeuoedd, i lawr canol y neuadd ac i ben y llwyfan yn y pen draw. Atgoffai eu parêd anniben Owain o ffrindiau Wil Cwac Cwac yn mynd am dro, wysg eu pigau, ar ddechrau LLYFR MAWR Y PLANT: Ifan Twrci Tenau, Huw Herc ... Tom Tilley,

Spring, Herman, Bongo a'r lleill. Ond bod y mynd hwn yn debycach yn ei effaith i lorri'n gyrru heibio ar stryd gul – yn frawychus o fawr a di-hid – ac yn taro dyn ag arogleuon hen frethyn, a dillad wedi eu presio, a chwyr Cherry Blossom ac, uwchben y cwbl, surni mwg tybaco.

Safodd yr athrawon o flaen eu cadeiriau metal a phren tri thrwch i ddisgwyl yr olaf, a'r blaenaf, ohonyn nhw: Dai.

Y Prif newydd.

Hwyliodd i mewn, a'i ŵn yn llifo o'i ôl a'i fol yn brigo o'i flaen. Edrychodd o ddim i'r naill ochr na'r llall – gwrogaeth roedd Dai yn ei erchi, nid cymdeithas – a chamodd i'r llwyfan.

Nodiodd ei ganiatâd i'r athrawon eistedd a chymerodd ei le yn y canol.

A chododd y REV. Darllenodd ddarn byr o COLLOSIANS, a gweddi'n canmol Duw am ei fendithion hael ac yn erfyn arno i'n harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder, a dywedodd pawb Amen. Eisteddodd y

REV.

Ac yna, fe gododd Dai.

Daeth i flaen y llwyfan a sefyll yno.

Edrychodd ar y dorf o fechgyn heb ddweud gair.

Ddechreuai Dai ddim nes bod pawb yn dangos, yn eu hwynebau a'u hosgo, y parch a fynnai o. Crwydrodd ei lygaid o gwmpas y dorf, i chwilio am y rhai a allai fod ag angen clywed min ei dafod. Oedodd ei olwg fymryn yn hirach ar y rheiny. Nes iddyn nhw wywo'n foddhaol.

Wedi sicrhau sylw pawb fe gododd ei sbectol i'w drwyn a chlirio'i lwnc.

Daeth bloedd. Oddi wrth Gwyn.

DIWEDD Y PAPUR